Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Tŷ Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Emyr.roberts@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4444

Adran Gynllunio'r PAC
Llywodraeth Cymru
Llawr Cyntaf, Adain Orllewinol CP2
Adeiladau'r Goron
Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebrill 14, 2014

Annwyl Syr/Fadam

**Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin: Cynigion Terfynol Rhaglen Datblygu Cymru Wledig 2014-20**

Diolch i chi am ymgynghori ag Adnoddau Naturiol Cymru ar y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG). Rydyn ni'n croesawu mwyafrif cynigion Llywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner ac ymgynghorydd i fusnesau, sefydliadau anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i gyflenwi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Rydyn ni ag agwedd ecosystem tuag at hyrwyddo rheolaeth adnoddau naturiol sy'n cyflenwi manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Cynyddu derbyniad arferion rheoli tir yn gynaliadwy yw un o'n sialensiau mwyaf[1]. Bydd y CDG yn ganolog i gyflenwad dull ardal ar gyfer rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol, fel y'u disgrifir ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd, sy'n tanategu, yn ei dro, ddarpariaeth ystod eang o fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i bobl Cymru.

Rydyn ni'n cytuno'n gryf â'r cynnig i ddatblygu gwasanaeth cynghori ffermio a choedwigaeth sy'n fwy "cyd-gysylltiedig". Rydyn ni eisoes yn cefnogi Cyswllt Ffermio drwy roi cyngor ar ystod o faterion rheoli tir yn gynaliadwy a materion cydnerthedd iard fferm. Rydyn ni'n barod, mewn egwyddor, i wneud cyfraniad pellach i'r broses o gyfnewid gwybodaeth drwy ddarparu gwasanaeth cynghori'n seiliedig ar swyddog dalgylch i gwmpasu elfennau coedwigaeth a chreu coetiroedd Glastir.

---

[1] *NRW evidence to National Assembly for Wales Inquiry into Sustainable Land Management, 29th January 2014. Accessible at: http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s500001180/Consultation%20response%20SLM16%20-%20Natural%20Resources%20Wales.pdf*

Byddai angen i wasanaeth felly fod yn rhan o bartneriaeth ehangach yn cynnwys staff Glastir Llywodraeth Cymru, cyrff anllywodraethol a'r sector breifat. Dim ond os byddai costau llawn gwasanaeth newydd fel hyn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gan ddefnyddio darpariaethau'r trosglwyddiad gwybodaeth, erthyglau cyngor a chydweithrediad o fewn Rheoliad Datblygu Gwledig newydd y Gymuned Ewropeaidd), y bydden ni'n gwneud hyn. Bydd angen trafodaethau pellach i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Rydyn ni'n cefnogi'n gryf y mesurau buddsoddi newydd arfaethedig. Dylai'r rhain wella cydnerthedd gwledig yn sylweddol drwy gynorthwyo i reoli maetholion a dŵr yn well; creu a rheoli coetiroedd, lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo ac adferiad natur. Dylai cyflwyno benthyciadau a/neu warantau ochr yn ochr â grantiau alluogi buddsoddiadau mwy sylweddol, yn enwedig yn y sectorau sy'n fwyaf cyfalaf-ddwys lle gallai graddfa'r grantiau sydd ar gael fod yn annigonol ddeniadol.

Yn dilyn trafodaethau diweddar yng Ngrŵp Llywio Iechyd Coed Llywodraeth Cymru, deallwn y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gael cyfrifoldeb am ddyletswydd newydd i gynnal gwaith monitro, gwyliadwriaeth a gwaith cynghori mewn perthynas ag afiechyd coed. Os digwydd hynny, bydd angen lefel priodol o gymorth ariannol. Byddai'r holl waith a wneid yn unol ag unrhyw ddyletswydd felly o fudd i'r sector breifat yn naturiol yn ogystal ag Ystâd Goed Llywodraeth Cymru. O ystyried graddfa ddigynsail a thrychinebus heintiad coed llarwydd â *Phytopthora ramorum*, rydyn ni'n awyddus i barhau i archwilio opsiynau ariannu o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig newydd ar gyfer rhaglen gadarn o ail-blannu, un sy'n berthnasol i'r sector breifat ac Ystâd Goed Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n croesawu'r gydnabyddiaeth y bydd rheolaeth gynaliadwy ein hadnoddau naturiol yn allweddol i lwyddiant ein heconomi ac i greu dyfodol ar gyfer cymunedau gwledig. Yn y cyd-destun hwn, rydyn ni'n cefnogi'r cynnig i ddyrannu 60% o gyllideb y CDG i'r mesurau ardal a'r pwyslais ar adfer gorgorsydd, ond byddai dull sy'n fwy targedol o ddelio â phroblemau cymdeithasol ac economaidd o fewn y parth rhostir newydd yn well na chynllun Ardal â Chyfyngiadau Naturiol rhyngbarthol.

Fe edrychwn ymlaen at barhau i weithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ystod datblygiad y CDG newydd.

Cysylltwch â brian.pawson@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ein hymateb yn fanylach.

Yn gywir,



**Emyr Roberts**
**Prif Weithredwr**
**Chief Executive**

## Ymateb Manwl i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

***Ydych chi'n cytuno â'r cynigion sydd wedi eu mynegi ar gyfer CDG 2014-20 dan bob un o'r ymyriadau canlynol?***

### *C1. Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â'r dull arfaethedig. Credwn y dylid cyfateb buddsoddiadau mewn rheolaeth tir cynaliadwy neu seilwaith ag ymrwymiad gan dderbynwyr i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesiad

Fel yr awgrymwyd mewn adroddiad diweddar gan Arsyllfa Wledig Cymru[2], fe allai fod yn fwy priodol cyfeirio at broses o "gyfnewid gwybodaeth". Byddai newid felly mewn pwyslais yn helpu i ddangos fod y broses o adeiladu economi wledig sy'n fwy cynaliadwy'n golygu gweithio mewn partneriaeth â busnesau unigol; mae cyfnewid gwybodaeth yn rhan allweddol o ddatblygu dulliau mwy arloesol.

Ystyrir cyngor amgylcheddol yn amherthnasol gan rai busnesau fferm o hyd. Bydd eraill yn ystyried cyngor fel llwybr tuag at wreiddio arferion busnes arloesol a phroffidiol[3].
Gall cyfnewid gwybodaeth helpu ffermwyr i ffurfio'r cysylltiad rhwng gwell cystadleurwydd a gwell canlyniadau amgylcheddol. Mae pecynnau cyngor integredig effeithiol sy'n cwmpasu ystod o sectorau amaethyddol yn bod eisoes[4,5.] Gallai proses newydd o gyfnewid gwybodaeth adeiladu ar y pecynnau hyn drwy ddangos fod dulliau gweithredu o 'ennill-ennill' yn ariannol bosibl.

Dylai cyfnewid gwybodaeth geisio datblygu gwerthfawrogiad gwell o'r hyn sydd ei angen i ddatblygu arferion rheoli tir sy'n fwy cynaliadwy o fewn busnesau unigol.
Gallai ymgysylltu gan ddefnyddio enghreifftiau ymarferol gynorthwyo rheolwyr tir unigol i gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gellid cyflawni hyn ar eu daliad.

Rydym yn cydnabod yr angen i gefnogi newydd-ddyfodiad a busnesau presennol i ddatblygu gwell dealltwriaeth o reoliadau a gofynion amgylcheddol allweddol. Gallai presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi achrededig gefnogi datblygiad "cydnabyddiaeth a enillir" dan y Fenter Hwyluso'r Drefn. Fe edrychwn ymlaen at weithio'n glos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull o'r math yma.

---

[2] *Knowledge Transfer and Innovation relating to the Wales Rural Development Plan and European Innovation Partnership 2014-20. Wynne-Jones, S. Wales Rural Observatory. October 2013. Accessible at:* *http://www.walesruralobservatory.org.uk/about/recent-research*

[3] *Exploring the Concept of Sustainable Intensification. Report for the UK Land Use Policy Group by ADAS and Les Firbank Ecosystems. January 2013. Accessible at: http://aplus.adas.co.uk/Services/sustainability/Exploring-the-Concept-of-Sustainable-Intensification.aspx*

[4] *Environmental Cost Benefits Datasheets for Farming Connect. Report to Countryside Council for Wales and Welsh Government by Cumulus Consultants and FWAG Cymru. http://www.cumulus-consultants.co.uk/portfolio-training.html*

[5] *Integrated Advice Pilot Project. Defra funded project FF0204. http://www.adas.co.uk/Home/Projects/IAP/tabid/349/Default.aspx*

Rydyn ni'n cytuno â Llywodraeth Cymru fod buddiolwyr sy'n "fwy anodd eu cyrraedd" yn rhoi sialens a chyfle. Fe hoffem gefnogi'r broses o estyn llaw i'r grŵp yma gan y gallai ehangu lefelau ymgysylltu'n sylweddol, cefnogi cyflenwad amcanion amgylcheddol allweddol ac ysgogi'r angen am fuddsoddiad ac arloesiad i greu twf economaidd tymor hir.

Gwasanaethau Cynghori

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â'r cynnig i ddatblygu gwasanaeth cynghori rheolaeth tir sy'n fwy "cydlynol"; mynd y tu hwnt i rôl bresennol Cyswllt Ffermio i gymryd agwedd fwy holistig yn seiliedig ar yr holl bynciau a nodwyd ar dudalen 33 y ddogfen ymgynghori. Yn benodol, dylai cynnwys creu coetir, rheoli coetir ac iechyd coed gynorthwyo i integreiddio amaethyddiaeth a gweithgareddau coedwigaeth o fewn cyfran helaethach o fusnesau gwledig. Mae ymchwil blaenorol wedi dangos fod ffermwyr yn ystyried fod darparu cyngor pellach yn ganolog i weithrediad llwyddiannus contract rheoli coetir[6].

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn cefnogi Cyswllt Ffermio drwy ddarparu cyngor ar ystod o faterion rheoli tir yn gynaliadwy a phroblemau cydnerthedd iard y fferm. Rydyn ni'n barod, mewn egwyddor, i wneud cyfraniad pellach i'r broses o gyfnewid gwybodaeth drwy ddarparu gwasanaeth cynghori'n seiliedig ar swyddog dalgylch i gwmpasu elfennau coedwigaeth a chreu coetiroedd Glastir. Byddai angen i wasanaeth felly fod yn rhan o bartneriaeth ehangach sy'n cynnwys staff Glastir Llywodraeth Cymru, Sefydliadau Anllywodraethol a'r sector breifat. Dim ond os byddai costau llawn gwasanaeth newydd fel hyn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru (gan ddefnyddio darpariaethau'r trosglwyddiad gwybodaeth, erthyglau cyngor a chydweithrediad o fewn Rheoliad Datblygu Gwledig newydd y Gymuned Ewropeaidd), y bydden ni'n gwneud hyn. Bydd angen trafodaethau pellach i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Yr hyn fydd yn allweddol i lwyddiant Gwasanaeth Cynghori Ffermio a Choedwigaeth fydd cynnydd sylweddol yn y rhai sy'n defnyddio Cyswllt Ffermio. Gellid defnyddio'r dulliau arloesol a llwyddiannus a fabwysiadwyd gan ymgynghorwyr Cyswllt Ffermio yn y dalgylchoedd Olway a Throthy yn ehangach o fewn dalgylchoedd allweddol ledled Cymru. Byddem yn croesawu cyfle i weithio â Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad pellach y gwasanaeth hwn.

Gallai ehangu'r ystod o faterion y mae'r Gwasanaeth Cynghori Ffermio a Choedwigaeth (GCFfaCh) yn delio â nhw olygu nodi gofynion anghyson ar rai daliadau. Bydd cyfaddawdau'n sbesiffig i fferm yn aml a gallai hynny fod yn groes i benderfyniadau eraill a wneir o fewn yr un dalgylch. Gellir defnyddio dulliau cynnal penderfyniadau gofodol gan ymgynghorwyr fferm i nodi synergeddau a lleihau'r risg o ddarparu cyngor croes. Er enghraifft, roedd y prosiect Pontbren yn cael ei gefnogi gan'Polyscape'[7], tra bod ADAS wedi datblygu 'Farmscoper'[8]. Gallai dulliau cynnal penderfyniadau fel hyn fod â rôl arwyddocaol yn y gwasanaeth cynghori newydd, yn enwedig gan y gellir defnyddio pwysiadau priodol i addasu unrhyw newidiadau mewn polisi.

---

[6] *A survey of farmers with woodland on their land. Report to Forestry Commission Wales by Wavehill Consulting. November 2009.*

[7] *http://cambrianmountains.co.uk/wp-content/uploads/2012/06/ALP_Summary_report_July_201111.pdf*

[8] *To develop a novel farmer-focused approach to delivery of flexible, integrated advice that balances farm business objectives with Defra policy objectives and integrates measures to achieve multiple wins. Defra contract FF0204*

Gallai'r GCFfCh fod â rôl bwysig i esbonio sut y mae'r cysyniad o gydnerthedd yn trosglwyddo i reolaeth amaethyddol a choetir. Er enghraifft, mae ymchwil diweddar yn y sector goedwigaeth wedi archwilio'r ffordd orau o wella gwytnwch coetiroedd presennol i'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal â delio â phroblemau fel llygredd gwasgaredig, rheoli'r perygl o lifogydd, lles anifeiliaid ac ansawdd aer. Mae angen i reolwyr tir ddeall yr effeithiau y bydd newid yn yr hinsawdd yn ei gael ar wahanol rywogaethau o goed a'r oblygiadau o ran potensial cynhyrchu yn y dyfodol a'r gallu i oroesi digwyddiadau eithafol.

Efallai na fydd gwell cystadleurwydd a chydnerthedd tymor hir yn mynd law yn llaw bob amser. Bydd angen i'r GCFfCh ddelio â chyfaddawdau felly wrth gynghori busnesau fferm unigol a choedwigaeth ar y ffordd orau o wella cydnerthedd.

Cydweithredu

Bydd defnyddio'r gwasanaeth cynghori a throsglwyddo gwybodaeth fel pwynt mynediad sengl ar gyfer darpar fuddiolwyr yn helpu i wella integreiddiad rhwng gwahanol fesurau'r CDG. Fodd bynnag, gallai dull felly olygu "pinch points" oni bai fod yna adnoddau digonol. Bydd ymgysylltu ar lefel leol yn hanfodol i lawer o fusnesau gwledig a chymunedau lleol. Bydd "gweithlu maes" sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n gallu darparu eiriolaeth, hyrwyddiad a chyngor yn allweddol i sicrhau bod y CDG newydd yn gweithio i ystod eang o fuddiolwyr potensial. Rydyn ni'n cymeradwyo'n gryf gynhwysiad sgiliau hyrwyddo arbenigol a gwybodaeth o ran gweithio â grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol.

Rydyn ni'n croesawu'r cynnig i annog mwy o weithio cydweithredol. Mae angen darparu grwpiau newydd â digon o gymorth ac amser i ddatblygu cyn gwneud unrhyw geisiadau am gyllid[9]. Mae'n rhaid i'r ymgynghorwyr fod â digon o'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol perthnasol yn cynnwys rheoli tir yn gydweithredol, datblygu seilwaith gwyrdd, mynediad i ddibenion hamdden a choetiroedd cymunedol. Mae gweithio â grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn golygu sgiliau arbenigol a gall Parciau Cenedlaethol Cymru a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ddarparu modelau defnyddiol o ddulliau integredig, yn cynnwys gwella economïau lleol cynaliadwy.

Rydyn ni'n cefnogi'r angen i ehangu'r cysyniad o Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi, drwy roi mwy o bwyslais ar y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd yn arbennig. Mae Prosiect Effeithlonrwydd Cadwyn Gyflenwi'r Diwydiant Llaeth yn enghraifft a fyddai'n elwa o roi mwy o bwyslais ar reoli adnoddau maetholion.

Delio â Newid yn yr Hinsawdd

Gallai'r rhaglen newydd o gyfnewid gwybodaeth wneud cyfraniad sylweddol tuag at ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Mae'r UK Climate Impacts Partnership (UKCIP) wedi datblygu'r 'Local Climate Impacts Profile'

---

[9] *Identification of Delivery Mechanisms for Welsh Top-Tier Agri-Environment Schemes (2006). Mills, J., Gibbon, D., Dwyer, J. Short, C., and Ingram, J. Countryside Council for Wales Research Report 06/15.*

yn arbennig i'r pwrpas hwn.  Mae'r broses yn defnyddio adroddiadau cyfryngau lleol o dywydd eithafol a'i effeithiau i asesu amlygiad presennol unrhyw sefydliad penodedig (a'r cynnyrch y mae'n eu darparu) i effeithiau tywydd eithafol.  Yna fe ddefnyddir yr asesiad hwn i ddatblygu mesurau sy'n fusnes-sbesiffig ac sydd wedi'u dylunio i leihau amlygiad i risg ac i wella gwytnwch.  Mae dull felly wedi bod yn effeithiol yn barod o fewn awdurdodau lleol a sefydliadau eraill ledled y Deyrnas Unedig a gellid ei gymhwyso ar lefel busnesau unigol neu gydweithredfa.

Mae ffermydd a busnesau gwledig lleol â rôl unigryw hefyd o ran lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.  Mae ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gael yn aml o fewn y busnes tra bod llawer o safleoedd ag effeithlonrwydd ynni isel.  Yn ogystal, mae polisïau Llywodraeth Cymru a'r UE yn ceisio lleihau lefel yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o dir ac anifeiliaid. Mae nifer o offerynnau rheoli carbon eisoes ar gael yn fasnachol (e.e. CALM)  ac mae nifer o godau diwydiant gwirfoddol (fel Map Ffyrdd Cig Coch Cymru) yn awgrymu ffyrdd y gellir rheoli allyriadau.  Mae ein profiad ni gydag ôl troed carbon ar lefel daliad ym Mynyddoedd y Cambrian (gan ddefnyddio model a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Bangor) yn awgrymu fod llawer o ffermwyr yn ymrwymedig ac yn barod i gymryd camau i gyflawni "niwtraliaeth garbon" a mwy, ond mae arnyn nhw angen mwy o gymorth i nodi ffynonellau allyriadau a chyfrifo eu hôl troed carbon[10].  Mae tystiolaeth bellach yn awgrymu y gall pennu ôl troed wella marchnata cynnyrch fferm confensiynol yn ogystal ag ysgogi archwiliad cynnyrch newydd drwy gynlluniau Taliadau am Wasanaethau Ecosystem.

Awgrymwn y gallai ymarferiad proffil uchel o bennu ôl-troed carbon sy'n cynnwys nifer sylweddol o fuddiolwyr CDG helpu i roi cychwyn da i raglen sylweddol o leihau allyriadau a chynhyrchu ystod eang o fanteision gwasanaeth i fusnesau cysylltiedig a'r ecosystem.

### *C2. Mesurau buddsoddi*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â'r ystod o fesurau ariannol arfaethedig. Roedd ein hymateb i'r ymgynghoriad CDG blaenorol yn croesawu defnyddio benthyciadau ac offerynnau ariannol arloesol ynghyd â grantiau.  Bydd defnyddio benthyciadau yn ogystal â grantiau i gefnogi'r opsiwn o ynni cymunedol a nodwyd dan LEADER yn rhoi mwy o gyfle i ddatblygu mentrau fel y rhaglen Cymoedd Gwyrdd[11] yn ogystal â chaniatáu defnyddio Tariffau Cyflenwi.  Dylai darparu cymorth fferm a choedwigaeth fod yn gysylltiedig ag ymrwymiad i baratoi a gweithredu cynlluniau rheoli perthnasol yn ogystal â chymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad parhaus.  Mae dull felly'n arbennig o berthnasol i ffermwyr ifanc a newydd-ddyfodiad gan y bydd gweithgaredd sy'n amgylcheddol niweidiol yn digwydd yn aml yn dilyn trosglwyddiad rheolaeth.

---

[10] *Measuring holistic carbon footprints for lamb and beef farms in the Cambrian Mountains Initiative. Rachel Taylor, Anna Jones and Gareth Edwards-Jones. CCW Policy Research Report No. 10/8. September 2010*

[11] *The Green Valleys Community Interest Company was set up by community members in and around the Brecon Beacons National Park in 2009. It aims to inspire and support communities to work together to reduce carbon emissions, generate income and deliver social and environmental benefits within those communities: www.thegreenvalleys.org*

Credwn fod buddsoddi i foderneiddio busnesau fferm yn hanfodol i sicrhau hyfywedd economaidd tymor hir.  Dylid anelu'r cynllun Cynhyrchu Cynaliadwy at gefnogi rheolaeth well o dail a slyri; adeiladau ffit-i'r-pwrpas ar gyfer gwartheg; buarthau sydd wedi'u cynllunio'n fwy cydnerth a pheiriannau modern ar gyfer rheoli tail.  Dylid rhoi cyllid digonol ar gael i daclo graddfa'r tanfuddsoddi a welir yn awr yn arferol yn ogystal â thwf yn y diwydiant amaethyddol yn y dyfodol.

Sylwn fod Tasglu Llaeth Cymru wedi cynghori y dylai cynhyrchiad llaeth gynyddu o 26% erbyn 2020.  Bydd angen buddsoddi sylweddol i reoli slyri a thail yn fwy effeithiol os yw'r targed hwn i'w gyrraedd yn gynaliadwy.  Mae gennym dystiolaeth sylweddol sy'n dangos tanfuddsoddi cyson mewn rheolaeth slyri a thail yn effeithiol.  Mae problemau'n cynnwys storfeydd annigonol ar gyfer slyri, rheolaeth wael o ran dŵr glaw a gweithrediad annigonol cynlluniau rheoli tail a maetholion.

Mae cefnogaeth bresennol y CDG wedi ei gyfeirio gan fwyaf at ddarparu cynhwysedd digonol ar gyfer storio slyri a/neu dail i ddelio ag amodau cyfredol, ond gydag ystyriaeth annigonol o:

- Ehangiad buchesi a ragwelir (a'r canlyniad yw bod cynhwysedd storio presennol a oedd yn ymddangos yn ddigonol yn dod yn annigonol yn sydyn);
- Effeithlonrwydd cynlluniau buarth, cynigion i ehangu a'r risgiau oherwydd gormod o ardaloedd buarth agored.  Mae glaw ar fuarthau sydd wedi eu cynllunio'n wael yn cynyddu cynhyrchiad slyri'n ddramatig, gyda lledaeniad wedyn sy'n groes i Godau Ymarfer sefydledig;
- Yr angen i gadw dŵr glaw allan o domennydd tail solet; gyda dŵr ffo sy'n llygredig o bosib, angen rheolaeth a storfa ychwanegol.

Mae arferion felly'n cynyddu costau i ffermwyr a'u canlyniad yw colledion maetholion i'r amgylchedd.  Dylid cwblhau system syml o wiriadau cyn y rhoddir cymorth i addasu systemau slyri presennol neu brynu peiriannau perthynol.  Dylai'r gwiriadau hyn gynnwys nodi cyfaint y deunydd halogedig sydd angen ei storio.  Lle bydd yr elfen "dŵr glaw perthynol" yn sylweddol, rydym yn argymell:

- Llunio cynllun rheoli syml sy'n amlinellu'r ffordd y bydd cyfeintiau mawr  yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, yn cynnwys y systemau hynny sydd angen slyri sydd wedi'i "wanhau" neu sydd ag "ychydig iawn o ddeunydd sych".
- Mabwysiad mesurau i leihau cyfeintiau storio, dilyn Codau Ymarfer ac osgoi'r angen i daenu tail a slyri ar adegau pan gollir mwyafrif y maetholion gydag effeithiau croes ar ansawdd dŵr.

Dylai dull felly fod yn rhan allweddol o'r rhaglen o Gyfnewid Gwybodaeth o fewn y CDG nesaf a bydd yn helpu i gyflenwi:

- Cyfleusterau llai i storio tail a slyri, lleihau costau datblygu a maint potensial unrhyw grant/fenthyciad.
- Gwell rheolaeth o dail a slyri a lleihau'r risg o lygredd a difrod i dir. Dylid taenu slyri ar yr amser optimwm, yn hytrach na phan fydd systemau storio'n orlawn â gormod o ddŵr glaw.

- Cynnydd yn erbyn targedau allweddol eraill, fel lleihad yn yr allyriadau amonia a nwyon tŷ gwydr.  Bydd buarthau sy'n cael eu rheoli'n well ag ardaloedd llai i golli nwyon ohonyn nhw i ddŵr ac i'r atmosffer.

Grantiau Bach

Gall grantiau syml o risg bychan weithredu fel cymhelliant i annog rheolwyr tir i ddarparu mwy o fanteision o ran rheoli adnoddau naturiol.  Gallant hefyd gynorthwyo'r rheiny sy'n anghymwys i ddod i mewn i'r Glastir a/neu ddarparu cyflwyniad i fesurau eraill y CDG. Deallwn fod Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bob ymgeisydd am y cynllun newydd gael Rhif Cyfeirnod Cwsmer.  Mae tystiolaeth anecdotaidd o gynlluniau coetiroedd Glastir presennol yn awgrymu y gall y broses gyfredol o gael Rhif Cyfeirnod Cwsmer fod yn annymunol i rai ymgeiswyr.  Bydd yn bwysig delio â phroblemau fel hyn wrth sefydlu'r cynllun newydd.

Er y bydd cyllid yn gyfyngedig, gall grantiau bach gyfrannu tuag at ystod eang o amcanion Llywodraeth Cymru fel rheoli rhywogaethau ymledol ac ysglyfaethwyr; plannu coed ar raddfa fechan; mannau croesi afonydd i anifeiliaid; agro-goedwigaeth; bioamrywiaeth, cynnal a gwella tirwedd.  Gellid defnyddio grantiau bychan hefyd i dalu costau arolygon rhywogaethau arbenigol sydd eu hangen i hysbysu prosiectau Glastir eraill.

Dylid gosod cyfyngiad ar uchafswm y grant ar gyfer pob daliad unigol.  Byddem hefyd yn awgrymu cyfyngu ar y swm y gellir ei wario ar weithgareddau penodol a lleihau'r risg y bydd y galw am fathau arbennig o brosiectau'n disbyddu'r gyllideb sydd ar gael.  Dylai rheoliadau ariannol fel hyn adlewyrchu blaenoriaethau a thargedau cyffredinol Llywodraeth Cymru.

Dylai'r cynllun newydd fod yn hygyrch ar lefel gymunedol i'w ddefnyddio gan Grwpiau Gweithredu Lleol.  Byddai hyn yn adlewyrchu'r dull a awgrymir ar gyfer Cronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig.  Gallai Grwpiau Gweithredu Lleol ddarparu ffordd gost-effeithiol o sicrhau fod prosiectau a wneir dan y cynllun grantiau bach, yn cael eu cefnogi gan gyngor addas.  Er enghraifft, mae angen lleoli pyllau newydd a phlannu coed ar raddfa fechan yn ofalus er mwyn osgoi difrod i gynefinoedd presennol.

Gallai grantiau bach ddelio ag ystod o broblemau sy'n anodd eu trin dan y cynllun Glastir presennol, er enghraifft:

- Fe gymeradwyodd Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Rywogaethau Estron Goresgynnol fabwysiad dull gweithredu dalgylch afon i'w rheoli[12].  Fe allai'r Cynllun Grantiau Bach fod yn fwy effeithiol na Glastir Uwch, yn enwedig wrth geisio delio â heigiadau bychan neu ardaloedd sydd ddim ar ffermydd.

- Fe waharddwyd trwsio waliau cerrig sychion o'r Glastir Sylfaenol am resymau cyllidol, ond gallai grantiau bach fod yn fwy cost-effeithiol, yn enwedig os byddan nhw'n gyfyngedig i dirweddau lle mae waliau cerrig sychion yn arwedd nodweddiadol ac yn hawdd i'r cyhoedd eu gweld.

[12] *National Assembly for Wales, Environment and Sustainability Committee: Inquiry into Invasive Non Native Species. January 2014*

- Mae perllannau traddodiadol yn gynefin Adran 42[13] ac yn bwysig am resymau tirwedd. Mae llawer o berllannau traddodiadol yn anghymwys ar gyfer Glastir ar hyn o bryd gan eu bod ar fân-ddaliadau neu ar dir nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth. Fe allai'r newidiadau arfaethedig ynglŷn â chymhwysedd ar gyfer Glastir Uwch ei gwneud yn haws i berllannau traddodiadol ar ddaliadau fferm mwy, ddod i mewn i'r cynllun ond bydd llawer o berllannau traddodiadol yn dal yn rhy fach i gymhwyso. Dylai gwaith dan y cynllun grantiau bach bwysleisio adferiad perllannau sy'n bod yn barod yn hytrach na chreu rhai newydd.

- Mae glaswelltir iseldir sydd heb ei wella'n gynefin Adran 42 sy'n gynyddol dameidiog a than fygythiad.  Mae diffyg rheoli a gwella amaethyddol yn cyfrannu tuag at eu dirywiad. Er bod Glastir Uwch yn rhoi cymorth ar gyfer cynnal cynefin ar ddaliadau amaethyddol, mae cyfran sylweddol o'r adnodd sy'n weddill yn digwydd ar ddaliadau bychan sy'n anghymwys ar gyfer y cynllun.  Gall gweirgloddiau a phorfeydd bychan sydd i'w cael yn aml o gwmpas cyrion aneddiadau, ddarparu adnodd amwynder gwerthfawr gan gynnal peillwyr a Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop fel glöyn brith y gors.  Gallai grantiau bach ddarparu dull effeithiol o gynnal y rheolaeth barhaus sy'n ofynnol.

- Gellid defnyddio'r holl grantiau ar gyfer coetiroedd bychan, ffensio parthau torlannol a phlannu gwrychoedd tonnog i wella ymdreiddiad dŵr glaw, ostwng cyflymder dŵr ffo a gwella ansawdd dŵr[14].  Mae'r mathau yma o ddulliau Rheoli Llifogydd Naturiol yn efelychu'r prosesau naturiol sy'n rheoleiddio llifogydd ac erydiad ac yn rhoi manteision ychwanegol yr un pryd o ran bioamrywiaeth a lleihad mewn allyriadau nwy tŷ gwydr.

Iechyd Planhigion

Yn dilyn trafodaethau diweddar â Grŵp Llywio Iechyd Coed Llywodraeth Cymru, rydym yn deall y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gael cyfrifoldeb newydd i gynnal gwaith monitro, gwyliadwriaeth a gwaith cynghori mewn perthynas ag afiechyd coed.  Os felly, bydd angen lefel priodol o gymorth ariannol.  Byddai'r holl waith a wneid yn unol ag unrhyw ddyletswydd felly'n elwa'r sector breifat yn naturiol yn ogystal ag Ystâd Goed Llywodraeth Cymru.

O ystyried graddfa ddigynsail a thrychinebus heintiad coed llarwydd â *Phytopthora ramorum* yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni'n awyddus i barhau i archwilio opsiynau ariannu o fewn y CDG ar gyfer rhaglen gydnerth o ailblannu sy'n berthnasol i'r sector breifat ac Ystâd Goed Llywodraeth Cymru.

Cymorth ar gyfer Rheoli Risgiau Fferm

---

[13] *Section 42, Natural Environment & Rural Communities Act 2006: List of habitats and species of principal importance in Wales.*

[14] *The Pontbren Project: A farmer-led approach to sustainable land use management in the uplands. (2013). The Woodland Trust / Coed Cadw and Coed Cymru.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ag amheuaeth ynglŷn â'r cynnig i gymorthdalu yswiriant sy'n ymwneud â thrychinebau naturiol. Dylai datblygu gwell gwytnwch tuag at ddigwyddiadau annisgwyl gael blaenoriaeth ar greu offerynnau ariannol newydd sydd wedi'u cynllunio i gymorthdalu colledion canlyniadol. I gael darlun eglurhaol o hyn fe aethom i weld nifer fawr o ddigwyddiadau o lygriad slyri a oedd yn berthynol i law yn ystod dau fis cyntaf 2014, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn ganlyniad i ddarpariaeth seilwaith wael. Hoffem weld y diwydiannau amaethyddol a choedwigaeth yn mabwysiadu pob mesur rhesymol i wrthsefyll digwyddiadau fel hyn yn y dyfodol, yn cynnwys seilwaith rheoli gwell o ran buarthau fferm a slyri yn ogystal â diogelwch priodol o ran iechyd anifeiliaid a phlanhigion.

Gallai Llywodraeth Cymru fabwysiadu/awgrymu dull amser cyfyngedig i'r mater yswiriant cymorthdaledig, gyda chyfran cymorth y wladwriaeth yn cael ei leihau'n raddol unwaith y bydd ffermwyr unigol a choedwigwyr wedi cael amser rhesymol i fabwysiadu'r mesurau gwytnwch ymarferol sydd ar gael dan rannau eraill o'r CDG newydd.

Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno** â'r cynnig y dylai'r gwelliant mewn safonau iechyd a lles anifeiliaid fod wedi'u gwreiddio fel thema drawsbynciol yn y CDG newydd. Mae effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol achosion o afiechyd yn sylweddol. Fodd bynnag, credwn fod y dull presennol o fuddsoddi mewn unedau cwarantin (sy'n cefnogi esemptiad i'r rheol gwaharddiad symud chwe diwrnod) angen ystyriaeth ofalus. Cydnabu McDonald (2011) y gallai'r unedau cwarantin gynnal esemptiadau i'r rheol gwahardd symud chwe diwrnod, ond dim ond pan fyddai mesurau eraill, fel yr adrodd electronig uniongyrchol, yn cael eu gweithredu'r un pryd[15].

### *C3. Mesurau'n seiliedig ar ardal*

Adferiad Gorgorsydd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â'r cynnig i ddefnyddio'r CDG newydd i hwyluso adferiad gorgorsydd ledled Cymru. Mae priddoedd mawn yn cynnwys y storfa fwyaf o garbon organig yng Nghymru, gallant gyfrannu tuag at reoli risgiau o lifogydd ac mae llawer o safleoedd yn rhai o bwysigrwydd rhyngwladol o ran bioamrywiaeth. Gallai cynnwys cyforgorsydd helpu i sicrhau dull mwy cyson o reoli adnodd y mawndir.

Mae prosiect integredig LIFE sy'n ymwneud ag agweddau ar reoli ac adfer mawndir yn cael ei drafod ar hyn o bryd ar lefel y Deyrnas Unedig. Gallai prosiectau felly helpu i sicrhau cyllid cyfatebol gan amrywiaeth o ffynonellau'r UE ac eraill. O ganlyniad, byddai'n fanteisiol gofalu fod y CDG newydd yn ddigon hyblyg i allu cyd-ariannu unrhyw brosiectau adfer mawndir y gellid eu darparu gan LIFE.

[15] *McDonald (2011) Striking a balance between reducing burdens, increasing responsibility and earning recognition. A report on better regulation in farming and food businesses.*

Amaeth-Amgylchedd-Hinsawdd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â chynigion Llywodraeth Cymru i resymoli fframwaith y cymorth amaeth-amgylchedd dan y CDG nesaf. Bydd caniatáu mynediad uniongyrchol i ffermwyr i'r Glastir Uwch a'r Mesurau Buddsoddi'n helpu i ganolbwyntio'r cynllun ar y materion amgylcheddol pwysicaf. Rydyn ni hefyd yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cynllun sengl ar gyfer tir comin a chyflwyno mwy o hyblygrwydd wrth drafod dwysedd stocio. Dylai'r dull hwn helpu i gynhyrchu canlyniadau amgylcheddol gwell yn ogystal â lleihau costau gweinyddol.

Rydyn ni'n cytuno â'r bwriad i gadw Glastir Sylfaenol yn y tymor byr, ond gallai'r rhan yma o'r cynllun wneud mwy i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau dŵr yr UE, bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd. Mae atebion posibl yn cynnwys cysylltu'r broses o gymhwyso â blaenoriaethau gofodol (y "dewis cyfeiriedig" fel y'i gelwir) neu gyplysu'r derbyniad o opsiynau llai ymdrechgar â'r rheiny sy'n cyflenwi lles amgylcheddol mwy (y dull "dewislen" ).

Rydyn ni'n dal â phryderon sylweddol ynglŷn â defnyddio opsiynau Glastir Sylfaenol 15B a 15D ar laswelltir sydd wedi'i led-wella. Dylid cadw'r opsiynau a ddefnyddir yn llai aml ble byddan nhw â'r potensial o gyflenwi enillion amgylcheddol arwyddocaol. Rydyn ni'n cytuno â'r angen i gynyddu apêl Pecynnau Rhanbarthol a byddem yn croesawu'r cyfle i gynghori ymhellach ar eu dyluniad.

Mae cynllun Glastir lefel Sylfaenol yn helpu i sicrhau fod ffermwyr yn cyfarfod â'u hoblygiadau cyfreithiol o ran hawliau tramwy cyhoeddus yn ogystal ag ar dir mynediad. Mae hyn hefyd yn helpu i gefnogi gwaith yr Awdurdodau Priffyrdd Lleol. Mae profiad o gynlluniau blaenorol, ynghyd ag adborth mwy diweddar, yn awgrymu y gellid gwella ar weithrediad y cynllun drwy:

- Gymryd agwedd fwy rhagweithiol i ofalu fod ffermwyr yn fwy ymwybodol o'u hoblygiadau o ran mynediad i'r cyhoedd;
- Gofalu fod cynlluniau unigol yn cael eu sefydlu lle bydd hynny'n angenrheidiol, er mwyn datrys unrhyw ddiffyg cydymffurfio potensial;
- Gweithio'n agosach ag Awdurdodau Priffyrdd Lleol i ddatrys unrhyw broblemau o ddiffyg cydymffurfio pan ddeuir â materion felly i sylw Arolygiaeth Wledig Cymru a staff Glastir.

Byddai'r gwelliannau canlyniadol i gyflwr Hawliau Tramwy a mynediad cyhoeddus arall a allai ddigwydd o ganlyniad, yn darparu gwell mynediad cyhoeddus i gefn gwlad ac felly fanteision cysylltiedig adloniant awyr agored (cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles). Byddai gwell gweithrediad y cynllun hefyd yn cefnogi gwaith gorfodi cyfreithiol gan awdurdodau lleol heb unrhyw gost ariannol uniongyrchol ychwanegol i'r sector gyhoeddus..

Rydyn ni'n **cytuno'n gryf** â chynigion Llywodraeth Cymru i ddefnyddio mesurau amaeth-amgylched-hinsawdd i wella cynaladwyedd yr ucheldir. Mae yna groeso i lefelau stocio sylfaenol, mwy o hyblygrwydd mewn patrymau pori a mwy o anogaeth i bori cymysg. Mae'n bosib na fydd dull presennol Glastir o osod patrymau pori ar sail dymhorol yn bodloni amcanion amgylcheddol, ac nid yw chwaith wedi'i siwtio i arferion ffermio cyfredol. Credwn y dylai fod yn bosib delio â'r ddau amcan yma drwy ddefnyddio cyfuniad o gyfraddau stocio cyfartalog blynyddol â dull mwy hyblyg o gymhwyso cyfraddau stocio uchaf yn ystod unrhyw un tymor.

Rydyn ni'n cefnogi creu haen newydd wrthrychol o'r Glastir Uwch ar gyfer ffermio tir amgaeedig sydd dros 400m gan y bydd yn helpu i sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng cominwyr a ffermwyr unigol o fewn y parth rhostir newydd. Er ei bod yn synhwyrol gwerthuso ansawdd haenau Systemau Gwybodaeth Ddaearegol (GIS) o fewn Glastir Uwch, credwn y byddai'n fwy buddiol gwella cywirdeb rhai o'r haenau mwy problemus yn y lle cyntaf. Mae llawer o'r haenau hyn yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau Adran 42 ac maen nhw'n arbennig o berthnasol i fentrau eraill Llywodraeth Cymru fel Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio.

Cynllun Organig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** y dylai ffermio organig gael cefnogaeth dan y CDG nesaf, gyda chyfleoedd i greu manteision amgylcheddol drwy hyfforddiant, cyngor a chynllunio mwy effeithiol. Yng nghyd-destun cyllideb gyfyngedig, rydyn ni hefyd yn cytuno â'r cynnig i ddefnyddio meini prawf cynaladwyedd i nodi'r daliadau hynny sy'n fwyaf addas i gael cymorth. Credwn y dylid defnyddio'r broses o ddethol i gael y cyflenwad mwyaf posibl o'r gwasanaethau ecosystem a ddymunir drwy fabwysiad arferion rheoli tir addas e.e. drwy annog ffermio organig yn y lleoliadau hynny lle y gall gyfrannu tuag at daclo problemau penodol o reoli tir.

Cyflenwi yn erbyn Cyfarwyddebau'r UE

Bydd y CDG newydd yn cynorthwyo gyda gweithredu strategaethau Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â Chyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar, Cyfarwyddeb Llifogydd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Gall cymorth felly greu manteision cymdeithasol economaidd hefyd drwy wella ansawdd dyfroedd ymdrochi a physgodfeydd; lleihau'r risgiau o lifogydd; gwella'r amrediad o gynefinoedd sydd ar gael i beillwyr a helpu i danategu'r sector dwristiaeth a hamdden.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â'r gosodiad y bydd angen amrywiaeth o offer i gyfarfod â gofynion deddfwriaeth yr UE. Bydd angen gwaith pellach i sefydlu sut y bydd gwahanol gydrannau'r Cynllun Datblygu Gwledig yn cael eu hintegreiddio, yn thematig ac yn ofodol. Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu atebion gofodol addas o ran rheoli dyfrgyrsiau unigol; integreiddio Glastir Uwch a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy i fodloni gofynion deddfwriaethol, gwella ansawdd amgylcheddol a gwella'r economi wledig.

Bydd angen gwaith pellach er mwyn canfod sut y gellir cefnogi mesurau mewn Cynlluniau Rheoli'r Risg o Lifogydd (sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd ac sydd i'w cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015) drwy'r CDG. Mae yna dystiolaeth sylweddol eisoes i ddangos manteision arferion rheoli tir cynaliadwy i leihau cyfradd a swm y dŵr glaw sy'n cyrraedd dyfrgyrsiau. Mae enghreifftiau fel Pontbren, 'Wild Ennerdale' a 'Slowing the Flow in Pickering' yn rhoi tystiolaeth benodol ac anecdotaidd o effeithiau positif. Gwyddom hefyd fod creu cynefin arfordirol fel morfeydd heli'n helpu i wasgaru ynni tonnau. Rydyn ni felly'n hyderus y gall Rheoli Tir yn Gynaliadwy gynorthwyo i reoli dŵr a gwaddod ochr yn ochr â dulliau mwy traddodiadol.

Rydyn ni'n **cytuno'n gryf** â'r cynnig ar gyfer Cynllun Rhwydwaith Cynefin newydd. Wrth ddelio â rhywogaethau sy'n gweithredu fel meta-boblogaethau (fel glöyn brith y gors) bydd angen i unrhyw gynllun felly weithredu ar raddfa tirwedd. Bydd Swyddogion Datblygu Rhanbarthol yn hanfodol i sicrhau'r derbyniad sy'n angenrheidiol. Awgrymwn y gellid delio â phroblem taliadau ardal sydd â photensial o fod yn annymunol, drwy roi mwy o bwyslais ar:

- gostau trafodion;
- y costau sefydlog sy'n gysylltiedig â'r ffurfiau mwyaf dymunol o reoli;
- cyfraddau uwch o ad-daliadau am waith cyfalaf.

Bydd yn ofynnol parhau i fireinio haenau'r System Wybodaeth Ddaearegol Uwch yn rhan o weithredu'r cynllun newydd sy'n cwmpasu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a rhywogaethau adran 42 (gweler y sylwadau uchod). Lle bydd hynny'n bosib, dylai'r dull newydd arfaethedig gael ei integreiddio â mentrau presennol y sector wirfoddol a Llywodraeth Cymru.

Ardaloedd â Chyfyngiadau Naturiol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **anghytuno** â'r cynnig i gyflwyno cynllun Ardal â Chyfyngiadau Naturiol rhyngbarthol i ddelio â phroblemau y bydd rhai ffermwyr yn eu hwynebu o fewn y parth rhostir newydd. Mae cyflwyno cynllun felly'n debygol o olygu gor-gyfadferiad mewn cyfran o achosion a bydd yn tanseilio cyfeiriad cyffredinol y daith o ran defnyddio'r CDG newydd i hyrwyddo gwelliant mewn cydnerthedd amaethyddol ac amgylcheddol ar draws y diwydiant cyfan. Bydd sectorau ffermio/ffermwyr unigol eraill hefyd yn cael eu heffeithio gan gyflwyniad taliadau ardal, sy'n atgyfnerthu'r dadleuon o blaid trosglwyddiad pum mlynedd i'r system o daliadau uniongyrchol yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol i bob sector dan y CDG newydd.

Golyga'r trosglwyddiad graddol i daliadau ardal y dylai fod yn bosib gweithredu mesurau eraill y CDG sy'n berthnasol i'r parth rhostir (e.e. defnydd targedol Glastir Uwch) cyn bod y broses drosiannol wedi'i chwblhau. Yn ogystal, mae priodweddau ffisegol llawer o'r tir sydd dros 400m yn golygu y byddai'n debygol fod cyfran uchel wedi eu dynodi'n safleoedd Natura 2000, yn AoDdGA neu byddant wedi eu diffinio i fod o Werth Mawr i Natur. Lle mae angen cymorth ychwanegol i sicrhau y gall ffermydd penodol barhau i gyflenwi rheolaeth tir yn gynaliadwy, mae presenoldeb dynodiadau fel hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu dull sy'n fwy targedol. Gellid cyflawni hyn dan y CDG (e.e. y Cynllun Rhwydwaith Cynefin newydd) neu drwy ddefnyddio Cronfa Natur Llywodraeth Cymru.

Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad diwethaf ar y Glastir fe groesawon ni'n gryf y cynnig i gefnogi defnyddio gwartheg a merlod yn yr ucheldir drwy gyfrannu tuag at gostau "sefydlog" yn ogystal â chostau "newidiol". Fe wnaethon ni hefyd gymeradwyo mwy o ddarpariaeth ar gyfer trin anifeiliaid a chyfleusterau i'w cadw yn ogystal â chyflwyniad technolegau newydd, labelu bwyd, cymorth i ladd-dai bychan ac adleoli "pencampwyr" lleol i gynghori ar faterion rheoli sy'n gysylltiedig â gwartheg a merlod. Gallai'r mesurau hyn i gyd helpu i ddarparu'r dull gweithredu mwy targedol a allai fod yn ofynnol o fewn rhai rhannau o'r parth rhostir newydd.

Cefnogaeth i'r Ucheldir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno** â'r cynnig i ddelio ag anghenion yr ucheldir drwy becyn integredig o fesurau'r CDG yn hytrach na thrwy ddatblygu is-raglen thematig benodedig. Awgrymwn fod cynnydd yn cael ei dracio o fewn lleoliad ucheldir a nodwyd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau yn y canlynol:

- proffidioldeb ffermio a choedwigaeth;
- patrymau o reolaeth amgylcheddol a'r canlyniadau;
- cyflogaeth wledig yn cynnwys unrhyw arallgyfeirio;
- cyfleusterau cymunedol a lefelau o ymgysylltiad cymunedol a chydnerthedd;
- cyflwyniad mecanweithiau newydd fel Taliadau am Wasanaethau Ecosystem.

Gellid cysylltu mecanwaith tracio felly â'r broses o ddatblygu Cynllun Adnoddau Naturiol hefyd ar gyfer yr un ardal.

Cyn cymhwyso'r un cyfraddau ymyrraeth uwch mewn ardaloedd yr ucheldir, byddai'n werth ystyried a allai dull felly atal datblygiad cydnerthedd uwch a gwell proffidioldeb drwy ymddangos ei fod yn arwyddo bod Llywodraeth Cymru'n barod i gynnal busnes fel arfer; symudiad a fyddai'n groes i ddyheadau'r CDG newydd.

### *C4. LEADER a Datblygu Lleol*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â chread Cronfa Ddatblygu Cymuned Wledig ar gyfer prosiectau cymunedol. Dylid cymhwyso meini prawf cyson sydd wedi'u targedu'n ofodol ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gynorthwyo gydag asesu ceisiadau a gofalu bod y cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf yn cael eu blaenoriaethu. Dylai pob cais ddangos cysylltiadau eglur â Strategaethau Datblygu Lleol a themâu trawsbynciol y CDG newydd. Mae'n ymddangos hefyd fod yna botensial i weithredu ledled Cymru dan fidiau thematig y gallai Llywodraeth Cymru eu rhedeg. Byddai dull gweithredu felly'n ddefnyddiol gan y byddai'n galluogi sefydliadau sydd â chylch gwaith Cymru-gyfan i ymgeisio am gymorth mentrau cenedlaethol sy'n gofyn am ddull cyson, fel Llwybr Arfordir Cymru. Byddem yn croesawu cyfle i weithio â Llywodraeth Cymru ar ddyluniad unrhyw gynllun newydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno** â'r cynnig i sefydlu fframwaith eang o opsiynau thematig lle gall Grwpiau Gweithredu Lleol ddewis dull sy'n adlewyrchu orau anghenion eu hardal arbennig hwy. Rydyn ni'n croesawu cynhwysiad *"Ychwanegu gwerth i hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol"* ymysg y rhestr o opsiynau sydd ar gael. Yn y cyd-destun hwn, mae datblygu mentrau rheoli tir lleol â chryn botensial. Er enghraifft, mae prosiectau pori lleol fel Bîff Gweundir Sir Benfro wedi dangos y synergeddau rhwng pori cadwraeth, ychwanegu gwerth at gynhyrchion amaethyddol a chryfhau hunaniaeth leol. Felly hefyd, mae cymeriad tirwedd Cymru'n cyfrannu tuag at lwyddiant llawer o fusnesau gwledig hefyd yn ogystal ag at ansawdd bywyd yn fwy cyffredinol. Gellid defnyddio'r system adnodd gwybodaeth LANDMAP a weithredir gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu nifer o argymhellion defnyddiol i gefnogi'r agenda Twf Gwyrdd.

Credwn y gall mathau priodol o weithgaredd hamdden yng nghefn gwlad Cymru gyfrannu tuag at ddatblygiad lleol integredig a helpu i dyfu'r economi wledig. Dylid rhoi digon o gyllid a chyngor ar gael i dalu am gynnal a datblygu mynediad cyhoeddus ac asedau hamdden eraill o fewn yr amgylchedd gwledig. Mae cyfleusterau felly'n tanategu'r sector dwristiaeth a gallant ddarparu manteision cymunedol lleol drwy hyrwyddo teithio a hamdden sy'n fwy actif; gwell iechyd a lles; ymgysylltiad cymdeithasol gwell a chyfleoedd cyflogaeth newydd. Er enghraifft, roedd dros draean o ddarparwyr llety sydd ar neu'n agos at y Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru'n dweud fod y Llwybr yn 'bwysig iawn i broffidioldeb' eu busnes[16].

Mae gwelliannau mewn cyfleoedd mynediad cyhoeddus yn gymdeithasol gynhwysol gan eu bod yn rhad ac am ddim yn y pwynt defnyddio. Mae Llwybr Arfordir Cymru wedi bod yn llwyddiant arwyddocaol o ran ei ddatblygu a'i hyrwyddo, yn amlygu'r cyfleoedd i gyrraedd ystod eang o amcanion y CDG drwy ddull twristiaeth hamdden. Bydd hyblygrwydd digonol i sicrhau y gellir cynnal y cyfuniadau perthnasol o ddatblygu asedau, darparu gwybodaeth a hyrwyddo dan y CDG yn bwysig o ran datblygu unrhyw fentrau pellach o'r math yma. Yn ogystal, byddai'n werth cryfhau'r cysylltiadau rhwng mentrau twristiaeth hamdden ac agweddau eraill ar ddatblygu gwledig fel prosiectau bwyd a diod lleol, dargyfeirio busnes a chludiant cynaliadwy.

Mae Parciau Cenedlaethol Cymru a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn fodelau defnyddiol ar gyfer integreiddio rheolaeth twristiaeth a'r amgylchedd mewn ffyrdd sy'n elwa'r economi leol. Er enghraifft, cynhelir triathlon Dyn Haearn Cymru ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Yn 2012 fe ddenodd y digwyddiad hwn 1,500 o gyfranogwyr gan gynhyrchu trosiant o dros £2.6 miliwn.

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn hyrwyddo ymgysylltiad pobl leol yng Ngogledd Cymru; yn ysgogi creu cyflogaeth fel hyfforddwyr awyr agored a chreu busnesau newydd[17]. Fe gyflawnwyd hyn yn erbyn cefndir o gyflogaeth isel yn y sector awyr agored gan bobl sy'n tarddu o ogledd Cymru.

Ynni Adnewyddadwy

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno** â chynhwysiad cynhyrchu ynni adnewyddadwy o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig gan y bydd hyn yn helpu i greu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol newydd ar gyfer cymunedau gwledig. Credwn fod yna gysylltiad cryf rhwng effeithlonrwydd adnoddau, effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ac rydyn ni'n croesawu'r cyfeiriadau at hyn ar dudalen 64 yr ymgynghoriad. Rydyn ni hefyd yn croesawu'r agwedd integredig tuag at ddefnyddio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a'r CDG newydd; a'r olaf yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu gwerth at ymyriadau mawr dan yr ERDF.

---

[16] *The benefits to businesses the National Trails in Wales, Countryside Council for Wales, 2006.*

[17] *www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk*

Mae'n amlwg fod yna botensial i gynhyrchu trydan adnewyddadwy ar ystâd goed Llywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymroddedig i wneud yn siŵr fod cymunedau a mentrau cymdeithasol yn cael y fantais fwyaf posib o'n rheolaeth tir ac fe barhawn i weithio â datblygwyr a chymunedau i nodi cyfleoedd newydd.

Mae ein profiad o Ynni'r Fro, rhaglen ynni adnewyddadwy cymunedol Llywodraeth Cymru wedi amlygu gwerth deialog gynnar rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rheiny sydd â chyfrifoldeb am sicrhau fod pob cyfyngiad amgylcheddol a phob cyfle'n cael eu harchwilio'n llawn a'u deall, gyda chyllid a chyngor yn cael eu targedu'n effeithlon. Cynigiodd gwerthusiad canol tymor Ynni'r Fro greu llyfrgell adnoddau ganolog i'w defnyddio gan grwpiau cymunedol. O ystyried y cyfle a gyflwynwyd gan y CDG newydd, rydym yn cymeradwyo diweddaru *"Hydropower: A guide for you and your community".* Roedd hwn, fel y cafodd ei gyhoeddi'n flaenorol gan Lywodraethau Cymru a Lloegr ac Asiantaeth yr Amgylchedd, yn rhoi canllawiau ymarferol ar bob agwedd ar ddatblygiad cynllun ynni dŵr ac roedd yn arbennig o berthnasol i gymunedau lleol.

Rydym yn cefnogi datblygiad agwedd ar sail tystiolaeth tuag at gyfleoedd cynhyrchu adnewyddadwy mewn ardaloedd gwledig. Rydyn ni'n cefnogi prosiect ymchwil Prifysgol Caerdydd ar hyn o bryd sydd wedi'i gynllunio i wella ein dealltwriaeth o fanteision potensial gweithfeydd ynni dŵr cymunedol. Mae derbyn bod lleoliad a graddfa'n debygol o effeithio ar effeithiolrwydd cost cynigion datblygu'n hanfodol ar gyfer datblygu adnoddau naturiol. Rydyn ni wedi datblygu dull gofodol newydd o reoleiddio ynni dŵr ac rydyn ni'n ymroddedig i wella ansawdd y wybodaeth sy'n seiliedig ar fapiau a ddefnyddir i nodi'r potensial ar gyfer datblygiadau ynni dŵr. Rydyn ni'n awyddus i gyfrannu tuag at unrhyw ymarferiad o fapio adnoddau naturiol sy'n edrych ar y cyfleoedd adnoddau potensial a'r cyfyngiadau o ran ynni adnewyddadwy mewn unrhyw ardal benodedig; hysbysu penderfyniadau ar y lleoliad gorau ar gyfer pob datblygiad yn ogystal â'r dewis mwyaf priodol o dechnolegau adnewyddadwy amgen.

<u>Mentrau Cymdeithasol a Pholisi Caffael Llywodraeth Cymru</u>

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cymeradwyo cynnwys cefnogaeth i fentrau cymdeithasol yn y CDG newydd. Mae mentrau cymdeithasol â'r nod craidd o hunangynhaliaeth: cynhyrchu incwm wrth ddarparu gwasanaethau, cyflogaeth a hyfforddiant lleol.

Credwn y dylid cyflenwi'r CDG cyfan yng nghyd-destun Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru gan geisio cynorthwyo rheolaeth amgylcheddol gadarn ochr yn ochr â chadwyni cyflenwi lleol, cyflogaeth, datblygu sgiliau, cydraddoldeb ac amrywiaeth[18]

---

[18] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2012/welshprocurement/?lang=en

***C5. Dosbarthiad Cyllid***

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynnig i ddyrannu isafswm o 60% o gyllideb y CDG i'r mesurau ardal (sy'n cynnwys amaeth-amgylchedd-hinsawdd, organig, coedwigaeth a Natura 2000/Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Llifogydd). Credwn ei bod yn hanfodol bwysig gofalu fod cyllid digonol ar gael i gyrraedd targedau amgylcheddol Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae ymchwil blaenorol wedi awgrymu y byddai graddfa'r ymyriad sydd ei angen i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru o ran bioamrwiaeth; tirweddau diwylliannol; lliniaru'r newid yn yr hinsawdd; rheoli'r risg o lifogydd; iechyd pridd ac ansawdd dŵr yn gyfanswm o £165m y flwyddyn[19]. Mae hynny oddeutu dwbl y swm sy'n debygol o gael ei ddyrannu dan y rhaglen amaeth-amgylchedd-hinsawdd newydd ar gyfer 2014-2020.

Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau eraill a ariennir dan y CDG hefyd â'r potensial o gyfrannu tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol yr UE a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir am y mesurau buddsoddi. Er mwy asesu effaith cyffredinol y CDG newydd, bydd angen gofalu fod rhaglen monitro'r CDG yn gallu nodi canlyniadau amgylcheddol pob un o'r mesurau hanfodol.

***C6. Unrhyw faterion cysylltiedig eraill?***

Cymorth Technegol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno'n gryf** â'r cynnig i ddyrannu rhan o'r gyllideb Cymorth Technegol i ehangu'r cysyniad o 'weithlu maes'. Mae darpau Swyddogion Datblygu Tiroedd Comin dan y CDG cyfredol wedi dangos fod hyrwyddwyr â rôl hanfodol yn helpu i dywys gweithgaredd cydweithredol. Mae hyrwyddo'n sgil arbenigol a chredwn fod Llywodraeth Cymru, drwy sicrhau fod yna "rannu llafur" yn briodol o fewn proses ymgeisio Tiroedd Comin Glastir, wedi cyflawni effeithlonrwydd sylweddol yn ogystal â gwelliant i'r rhagolygon o ganlyniadau amgylcheddol gwell.

Gyda darpariaethau'r gyllideb Cymorth Technegol gyfredol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gallu talu am nifer o staff dros dro ychwanegol i asesu'r ffermydd hynny sydd wedi'u dewis i ymuno â'r Glastir Uwch o fewn ardaloedd Blaenoriaeth Ansawdd Dŵr 1 a 2 ac ardaloedd blaenoriaeth Misglen Berlog yr Afon. Mae'r gwaith yma'n hanfodol i sicrhau'r contractau lefel fferm sydd eu hangen i gyflenwi gwelliant yn yr amgylchedd dŵr. Darperir ein hasesiadau ar ffurf Cynllun Rheoli Dŵr a lle bydd hynny'n ofynnol, Adroddiad ar Storio Slyri a Chynllun Rheoli Maetholion.

Monitro a Gwerthuso

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n **cytuno** â'r angen i fodloni gofynion yr UE o ran tracio cynnydd ariannol yn ogystal â'r mathau o ymyriadau a niferoedd y buddiolwyr a gefnogir, ond credwn y dylid rhoi mwy o sylw i asesu canlyniadau gwahanol fesurau'r CDG.

---

[19] *"Estimating the Scale of Future Environmental land Management Requirements for the UK". Cao,Y., Elliott, J., McCracken, D., Rowe, K., Whitehead, J. and Wilson L. Report to Land Use Policy Group by ADAS & Scottish Agricultural College. December 2009.*

Mae Atodiad 3 y Ddogfen Ymgynghori'n disgrifio is-set o ddangosyddion o Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin y Comisiwn Ewropeaidd, ond mae'r rhain, bron yn ddieithriad, yn ymroddedig i fesuriadau allbwn. Rydym yn cefnogi Llywodraeth Cymru gyda cheisio datblygu system fonitro a gwerthuso gynhwysfawr ac effeithiol a byddem yn croesawu cyfleoedd pellach i barhau i gynorthwyo yn y broses hon.

Er bod yna werth, mae'n amlwg, mewn ceisio addasu'r system TG a ddefnyddir ar hyn o bryd gan WEFO yn rhan o gyflenwad monitro'r Cronfeydd Strwythurol, byddem yn croesawu sicrwydd pellach ynglŷn ag i ba raddau y gall y system newydd gofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau'r cynllun. Er enghraifft, bydd angen i'r system fonitro a gwerthuso ddelio ag oblygiadau lleoli pecyn integredig o fesurau'r CDG yn ucheldir Cymru (gweler ein hymateb i Gwestiwn 4). Dylai'r system hefyd allu darparu adborth yn ystod tymor y CDG newydd er mwyn sicrhau y gellir gwneud unrhyw addasiadau sy'n ofynnol mewn ffordd amserol.

Bydd canlyniadau monitro'r CDG a'r ymarferiadau gwerthuso'n cyfrannu tuag at adrodd ar weithgareddau eraill i'r Comisiwn Ewropeaidd e.e. y canlyniadau sy'n codi o weithrediad y Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth ar safleoedd Natura 2000. Oni bai fod yna ofynion diogelu data penodedig, dylai'r holl wybodaeth a gesglir yn rhan o fonitro a gwerthuso'r CDG fod ar gael i danategu ymarferiadau adrodd perthnasol eraill.

Mae'r CDG newydd yn amlygu'r angen am weddnewidiad i gyflwr yr amgylchedd, cystadleurwydd busnes, gwytnwch ac agweddau cyfranogwyr y cynllun yng Nghymru. O ganlyniad, bydd angen mesur newidiadau ym mhob un o'r nodweddion hyn dros y saith mlynedd nesaf, yn ogystal â cheisio nodi i ba raddau y gellir priodoli unrhyw newidiadau i gamau a gefnogwyd dan y CDG.

Rhwydwaith Wledig Cymru

Mae Adnoddau Naturiol Cymru'n cefnogi gwaith Rhwydwaith Wledig Cymru ac yn croesawu'r cynnig i barhau â'r broses o rwydweithio a chyfnewid gwybodaeth ar lefel y DU a'r UE. Mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud y tu allan i gwmpas y CDG a gallai Cyfoeth Naturiol Cymru fod â rôl i helpu i ledaenu gwybodaeth o'r ffynonellau hyn[20].

Themâu Trawsbynciol – Datblygiad Cynaliadwy, Cyfleoedd Cydraddoldeb a Dim Gwahaniaethu

Rydyn ni'n croesawu'r cyfeiriad sydd yn y ddogfen ymgynghori at rôl y CDG o gyflenwi canlyniadau integredig ar gyfer cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd yn ogystal â'r penderfyniad i sicrhau y gall Cymru wledig edrych ymlaen at ddyfodol sy'n fwy cydnerth. Bydd hynny ac agwedd newydd Llywodraeth Cymru tuag at reoli adnoddau naturiol yn cyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy a dylai helpu i sicrhau bod y CDG newydd wedi'i alinio â'r cynigion sy'n awr yn cael eu rhoi gerbron dan y Bil

[20] *e.g. Forest Research as well as Landbridge. The latter is a knowledge exchange programme for researchers and rural land use professionals: http://www.relu.ac.uk/landbridge/*

Cenedlaethau’r Dyfodol.

Dylid cynllunio a gweithredu canllawiau, dulliau monitro ac adrodd fel eu bod yn gallu dangos cyfraniad y CDG i ddatblygiad cynaliadwy Cymru. Bydd hynny’n helpu i sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ddyletswyddau sydd wedi’u nodi yn y Bil Cenedlaethau’r Dyfodol arfaethedig.

Dylai’r holl gynlluniau sy’n cael eu cefnogi dan y CDG ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn ffordd integredig gan ystyried y risgiau a’r cyfleoedd a allai fodoli yn y dyfodol, yn ogystal â’r rheiny sy’n bod yn awr, er mwyn cyfrannu’n llawn i ddatblygiad cynaliadwy. Dylid delio ag ystyriaethau felly yn y cyfnod cynharaf posib wrth ddatblygu cynigion y prosiect. Felly hefyd, dylai’r broses o asesu ceisiadau am gynlluniau unigol allu dangos fod dull gweithredu integredig wedi digwydd a bod yr ateb mwyaf cynaliadwy’n cael ei gynnig. Dylai asesiadau felly ystyried hefyd faterion iaith, diwylliant, cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth a ddarparwyd ar densiynau a’r rhesymau am ddewis canlyniad penodol.

Mae nifer o arfau asesu’n bod yn barod, yn cynnwys rhestr wirio cynaladwyedd Echel 3 a 4 a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt[21]. Bwriad hynny oedd cynorthwyo ag integreiddio cynaladwyedd amgylcheddol mewn prosiectau sy’n canolbwyntio ar ddatblygiad cymdeithasol a gwledig, felly mae’n bosib y bydd angen ei hadolygu i ofalu ei bod yn adlewyrchu agwedd ecosystem tuag at reolaeth adnoddau naturiol.

**Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales**

**Ebrill/April 2014**

[21] *Rural Development Plan for Wales 2007-2013: Meeting the requirements of the environmental sustainability cross-cutting theme. Checklist prepared by Chris Finch on behalf of the Countryside Council for Wales. August 2007.*